**GORCHYMYN DILEU LLWYBR CYHOEDDUS**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**GORCHYMYN DILEU LLWYBRAU CYHOEDDUS (LLWYBRAU CYHOEDDUS**

**RHIFAU 67 GWENFÔ a 44 SAINT ANDRAS 2025**

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bro Morgannwg ("yr Awdurdod") o dan Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod hwnnw nad oes angen y llwybrau troed a ddisgrifir isod at ddefnydd y cyhoedd.

DRWY'R GORCHYMYN HWN

1. Bydd yr hawliau tramwy cyhoeddus dros y tir yn Beauville Lane, Dinas Powys ac a ddangosir gan linell barhaus ddu ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael eu dileu ar ôl 28 diwrnod o ddyddiad cadarnhau'r Gorchymyn.

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** 19259

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**yma**

**ar** 14eg o Hydref **2025**

**ym mhresenoldeb:**

**Victoria Davidson**
**Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

**Justine Cass**
**Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfreithiol**

**ATODLEN**

**Rhan 1**

**DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR PRESENNOL**

| Rhan o'r llwybr neu'r ffordd fel y'i | Lleoliad | Hyd | Lled |
|---|---|---|---|
| A – B – C Llwybr Troed Rhif 67 Gwenfô | Yn cychwyn wrth y gyffordd â'r briffordd fabwysiedig ym mhwynt A (CGC 313576 172694) ac yn mynd tua'r dwyrain ar hyd y lôn hyd at y gyffordd â Llwybr Troed Rhif 45 Gwenfô ym mhwynt B (CGC 313608 172686). Mae'r llwybr yn parhau tua'r de gan ddilyn y lôn i ddod i ben ar ffin y plwyf ym mhwynt C (CGC 313647 172596). | 116 Metr | Anniffiniedig |
| C – D – E – F Llwybr troed Rhif 44 Saint Andras | Yn cychwyn ar ffin y plwyf ym mhwynt C (CGC 313647 172596) ac yn mynd tua'r de gan ddilyn y lôn i bwynt D (CGC 313640 172541). Mae'r llwybr yn gadael y lôn ac yn parhau tua'r de-ddwyrain i groesi coetir a thir fferm cyn dychwelyd i'r lôn ym mhwynt E (CGC 313673 172428). Mae'r llwybr yn parhau tua'r de-ddwyrain gan ddilyn y lôn, cyn troi tua'r de i fynd i mewn i Fferm Beauville a gorffen ym mhwynt F (CGC 313750 172353). | 434 metr | Anniffiniedig |

Diddymu o Llwybrau Troed Cyhoeddus Rhif 67 Gwenvo a Rhif 44 Saint Andras, Deddf Pryffyrdd 1980, Adran 118

Extinguishment of public Footpath No. 67 Wenvoe and No. 44 St. Andrews Major, Highways Act 1980, Section 118

